# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y grŵp trawsbleidiol:** | Y Grŵp Trawsbleidiol ar Adeiladu |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 26.06.23 |
| **Lleoliad:** | MS Teams |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Joyce Watson AS (JW) - Cadeirydd | |
| Nitesh Patel (N) - Staff Cymorth | |
| Matt Kennedy (MK) - CITB | |
| Ken Pearson (KP) – Bluestone Construction | |
| Tom Perry (TP) - Staff Cymorth | |
| Richard Wilson (RW) – Llywodraeth Cymru | |
| Gareth Davies (GD) - Knox and Wells | |
| Ed Evans (EE) - CECA | |
| Mark Harris (MH) - HBF | |
| Mark Hennessey (MHe) - ASD Build | |
| | |

| | |
|---|---|
| Jim McKirdle (JM) - CLILC | |
| Gareth Evans (GE) - CWIC | |
| David Kirkby (DK) - CIOB | |
| Keith Jones (KJ) - ICE | |
| Christopher Hare (CH) - Llywodraeth Cymru | |
| Gareth Williams (GW) - CITB | |
| Bethan Sayed (BS) - Climate Cymru | |
| Thomas Owen (TO) - Staff Cymorth | |
| Andrew Eldred (AE) - ECA | |
| Ryland Doyle (RD)- Staff Cymorth | |
| Jill Fairweather (JF) - Llywodraeth Cymru | |
| | |

## Ymddiheuriadau:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

Dechreuodd y cyfarfod am 13:41. Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod a gwahodd MK i roi cyflwyniad ar yr eitem gyntaf.
Rhoddodd MK drosolwg byr o adroddiad newydd y grŵp trawsbleidiol - Insights from Industry. Dywedodd MK fod yr adroddiad yn adlewyrchu'r ystod eang o bynciau y mae'r GTB wedi ymdrin â nhw yn y cyfarfodydd diweddaraf ond bod y system sgiliau wedi amlygu ei hun fel pwnc. Felly, canolbwyntiodd yr adroddiad ar yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r system sgiliau gan ystyried y profiadau a rannwyd gan aelodau yn y cyfarfodydd.

Ychwanegodd MK nad bwriad yr adroddiad yw bod yn hollgynhwysol ond mae'n cynnwys rhai o'r pwyntiau / elfennau allweddol.

Dywedodd MK fod yr adroddiad yn edrych yn gyntaf ar y system sgiliau a'r heriau yn y sector addysg bellach sy'n ymwneud â chapasiti a chadw'n gyfredol o ran arloesedd mewn diwydiant. Soniodd MK am enghreifftiau cadarnhaol o gwmnïau'n cydweithio'n agos ag addysg bellach ond roedd angen cynnydd parhaus yn y maes hwn.

Dywedodd MK fod yr adroddiad yn adlewyrchu ar y ffaith fod y system sgiliau yn ddryslyd i gyflogwyr ei deall a rhyngweithio â hi yn aml. Ond dywedodd fod rhagor o gyfleoedd ar gael trwy ddysgu hyblyg/cyrsiau byr i helpu cwmnïau i ddod o hyd i'r amser i ryddhau gweithwyr i uwchsgilio. Tynnodd MK sylw hefyd at rôl matrics gwerth cymdeithasol ond dywedodd fod yr adroddiad yn awgrymu'r angen i adrodd mewn ffordd symlach.

Aeth MK ymlaen i siarad am ddenu a chadw talent, gan dynnu sylw at pa mor werthfawr oedd cadw gweithwyr profiadol i fentora ac uwchsgilio newydd-ddyfodiaid, ynghyd â sôn am yr effaith mae'r cynlluniau rhannu prentisiaeth wedi'i chael o ran cefnogi cyflogwyr llai i gyflogi prentisiaid.

Crynhodd MK adran olaf yr adroddiad ar sero net, lle tynnodd sylw at y ffaith fod yr adroddiad yn pwysleisio'r angen i siarad mewn iaith gyffredinol am sero net a blaenoriaethu gwybodaeth ymhlith staff technegol ac annhechnegol. Tynnodd MK sylw hefyd at yr angen i hyrwyddo mentrau'r Llywodraeth, fel y cyfrif dysgu personol gwyrdd newydd, i gefnogi datblygu sgiliau o fewn diwydiant.

Gorffennodd MK drwy ddweud ei fod yn gobeithio bod yr adroddiad yn werthfawr o ran cefnogi'r GTB i feddwl am sut i lunio cyfarfodydd y dyfodol a ffocws ei waith parhaus.

Diolchodd JW i MK am ei gyfraniad a gofynnodd i RW roi ei farn o safbwynt Llywodraeth Cymru.

Diolchodd RW i'r grŵp am ei wahodd i'r cyfarfod. Gwnaeth RW rai sylwadau am yr adroddiad, gan groesawu ei ffocws cyffredinol. Dywedodd RW fod llawer o'r heriau a gyflwynwyd yn yr adroddiad, er yn ymwneud â'r amgylchedd cyfoes, wedi bodoli ers llawer o flynyddoedd. Ychwanegodd RW mai un o'r materion allweddol yw sut mae pobl (ac amrywiaeth well o bobl) yn cael eu denu i weithio mewn diwydiant ac, yn ôl RW, mater allweddol arall oedd cadw gweithwyr.

Myfyriodd RW ar yr heriau sy'n wynebu diwydiant yng Nghymru, lle mae'r sector yn cynnwys busnesau bach a chanolig yn bennaf, ynghylch gallu fforddio'r arian a'r amser i hyfforddi ac uwchsgilio gweithwyr heb ragor o sicrwydd y bydd hynny'n talu ar ei ganfed o ran y gallu i gystadlu am gontractau a gwaith yn y dyfodol. Ychwanegodd RW bwysigrwydd taliadau prydlon i gwmnïau yn wyneb yr argyfwng costau byw.

Diolchodd JW i RW am ei argraffiadau ac agorodd y drafodaeth i sylwadau ehangach gan aelodau.

Croesawodd EA yr adroddiad, ond ychwanegodd fod materion eraill hefyd angen sylw. Dywedodd EA fod sicrwydd ynghylch contractau ar raddfa fawr yn rhoi hyder i gwmnïau mawr yn unig, yn hytrach nag i isgontractwyr llai sy'n debygol o wneud y rhan fwyaf o'r hyfforddiant. Ychwanegodd EA fod y diffyg gweithwyr sy'n cael eu cynhyrchu drwy'r system sgiliau yn bryder gwirioneddol o safbwynt yr ECA. Cododd EA bryderon hefyd ynghylch sut y gallai cyflogwyr yn ehangach ymgysylltu â'r camau gweithredu yn yr adroddiad Insights from Industry.

Cyflwynodd BS ei hun i'r grŵp fel aelod o Climate Cymru a dywedodd y byddai'r corff yn hoffi chwarae mwy o ran wrth gefnogi trafodaethau gyda'r diwydiant adeiladu ar newid hinsawdd. Tynnodd sylw at y ffaith y gallai fod cyfle i ymgysylltu â chyrff anllywodraethol a'r trydydd sector ynghylch gweithredu ar y cyd i ysgogi camau gweithredu unedig ar newid hinsawdd.

Croesawodd OJ sylwadau RW a'r camau gweithredu ehangach gan Lywodraeth Cymru i geisio lliniaru pwysau chwyddiant a chynnydd mewn costau. Ond tynnodd sylw at y ffaith y bu heriau gwirioneddol o ran cael rhai cleientiaid i gynnig unrhyw eglurder ynghylch y cymorth sydd ar gael i gontractwyr i sicrhau bod y gwaith sydd ar y gweill yn parhau i fod yn hyfyw.

Croesawodd OJ hefyd y farn ar y cynlluniau rhannu prentisiaeth, yn enwedig Cyfle. Er bod 80 o ymgeiswyr o ansawdd uchel wedi eu derbyn i'r cynlluniau yn barod, tynnodd sylw at y ffaith y byddai cyllid presennol y Llywodraeth yn talu am 50 o'r llefydd hyn yn unig.

Symudodd OJ ymlaen i siarad am rôl CITB o ran darparu rhagor o gefnogaeth ar lefel ranbarthol a myfyriodd ar drafodaeth gychwynnol gyda Phrifysgol y Drindod Dewi Sant a CWIC ynghylch darparu hyfforddiant pellach mewn sgaffaldwaith a gwaith toi.

Tynnodd RW sylw at waith yr oedd yn ymwybodol ohono yn yr adran tai ac adfywio a oedd yn gosod cymalau newidiol mewn contractau i gyfrif am ansefydlogrwydd costau. Soniodd RW hefyd am effaith dyled a phwysigrwydd cyfrifon banc prosiectau o ran oedi mewn taliadau i fusnesau bach a chanolig.

Tynnodd OJ sylw at y ffaith y byddai cleientiaid fel arfer yn cyfrannu swm cyfatebol i'r cymorth o ran costau materol sy'n cael ei ddarparu gan y Llywodraeth ond nid oedd hyn yn digwydd ar hyn o bryd, gyda disgwyl i gontractwyr ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r baich o ran costau. Mynegodd OJ bryderon y gallai hyn arwain at rai contractwyr yn mynd i'r wal.

Tynnodd KP sylw at y twf yn ei fusnes o 3 aelod o staff i 12 aelod o staff. Myfyriodd ar y profiad o geisio gweithio ar gontractau sector cyhoeddus ond oherwydd profiad negyddol, tebyg i'r hyn ddisgrifiwyd gan eraill, penderfynodd barhau i weithio gyda chleientiaid preifat yn unig. Ychwanegodd KP y byddai'r twf mewn gweithgaredd economaidd yng ngorllewin Cymru yn rhoi rhagor o straen ar yr angen am sgiliau.

Dywedodd KP y dylai fod gan bob person sy'n gweithio mewn diwydiant gyfrif dysgu personol i'w galluogi i fonitro datblygiad. Tynnodd sylw at y ffaith fod y diwydiant gwyrdd yn datblygu mor gyflym fel bod ceisio ailadrodd y dysgu sy'n ofynnol o fewn y system addysg yn heriol. Roedd KP o blaid cydweithio agosach â chynhyrchwyr i greu cyrsiau byr.

Croesawodd GE y papur ond tynnodd sylw at yr hyn sydd ar goll yn rôl y sector addysg uwch, yn enwedig gyda'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu prentisiaethau gradd ar gyfer rolau allweddol o fewn diwydiant. Cefnogodd GE bwyntiau OJ ynghylch gweithio gyda CWIC a'r sector ehangach i edrych ar symleiddio sut i ddarparu darpariaeth arbenigol mewn crefftau allweddol gyda'r ffocws presennol ar waith toi a gwaith pridd.

Eglurodd CH, o safbwynt Llywodraeth Cymru, fod y gefnogaeth i'r model rhannu prentisiaeth wedi'i ehangu i ystod o sectorau eraill ac ar draws ardal

ehangach o Gymru yn ddaearyddol. Ychwanegodd CH fod angen cydbwysedd wrth fynd i'r afael â gwahaniaeth ariannu a sicrhau tegwch ar draws diwydiannau sy'n elwa o'r model.

Ystyriodd MHe ar bwynt OJ ynghylch y disgwyl i gontractwyr ysgwyddo cost ychwanegol y gwaith o ganlyniad i chwyddiant/pwysau costau. Defnyddiodd MHe enghraifft lle dyfarnwyd contract cost sefydlog i ASD Build i ddarparu tai fforddiadwy, ond pan ddaeth yn amser i ddechrau'r datblygiad, 15 mis yn ddiweddarach, nid oedd unrhyw gymorth ar gael i fynd i'r afael â'r costau ychwanegol oedd wedi codi yn ystod y cyfnod ers dyfarnu'r gwaith. Tynnodd MHe sylw at yr angen i ddod ag ymarferwyr o bob sector ynghyd i ystyried y modd caiff cyfleoedd tendro eu llunio yn wyneb y galw am fwy o gartrefi ar draws de Cymru.

Croesawodd EE yr adroddiad ond tynnodd sylw at y ffaith fod llawer o'r materion dan sylw wedi bod yn destun trafodaeth ers degawdau. Soniodd EE am y cyfleoedd i'r system sgiliau esblygu o ganlyniad i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru a'r cyfleoedd i ddiwydiant gefnogi'r dull newydd o weithio mewn ysgolion.

Ychwanegodd EE fod yr ymgyrch tuag at sero net yn gyfle gwirioneddol i ddenu pobl newydd i'r diwydiant a denu pobl o wahanol gefndiroedd i gynyddu amrywiaeth o fewn y gweithlu.

Dywedodd EE ei bod hi'n ymddangos bod dull gweithrediadol iawn ar waith o hyd o ran contractio yn y sector cyhoeddus. Ychwanegodd EE fod gwerth cymdeithasol yn rhoi cyfle gwahanol i ddechrau troi'r llanw o ran meddylfryd a ffocws. Roedd EE hefyd yn argymell dull mwy rhagweithiol o waith ysgogi er mwyn sicrhau bod y disgwyliadau o ran yr hyn sy'n cael ei ddarparu a chan bwy yn fwy eglur.

Gwahoddodd JW RW i roi sylwadau pellach yn seiliedig ar y drafodaeth hyd yn hyn.

Soniodd RW am yr her o liniaru cynnydd mewn prisiau wrth ddyfarnu contractau oherwydd yr oedi rhwng dyfarnu is-gontractau, cytuno arnynt a dechrau'r gwaith.

Gofynnodd KP i CH a oedd ei ddiweddariad yn golygu, gydag ehangu'r model rhannu prentisiaeth i ddiwydiannau eraill, y byddai niferoedd o fewn y diwydiant adeiladu yn lleihau ac y byddai'r cyllid yn cael ei wasgaru'n ehangach, yn hytrach na chynyddu. Awgrymodd CH sgwrs bellach y tu hwnt i'r cyfarfod i egluro sut mae'r trefniant ariannu yn gweithredu.

Symudodd JW y cyfarfod ymlaen i ganolbwyntio ar flaenoriaethau'r grŵp yn y dyfodol.

Dechreuodd MK drwy amlinellu'r cyfle i ymgysylltu ag adroddiad Hefin David ar bontio mewn swyddi lle mae rôl amlwg i ddiwydiant.

Awgrymodd KP y dylai sgiliau sero net barhau i fod yn rhan o drafodaeth a gwaith y GTB o gofio ei bwysigrwydd parhaus.

Mynegodd MH bryder ynghylch y diffyg cydnabyddiaeth o ran effaith economaidd adeiladu tai yng Nghymru. Tynnodd MH sylw at greu Hyb Cartrefi'r Dyfodol yn Lloegr ac y bydd gan Gymru ei hyb ei hun, ond y bydd hwn yn fwy cyfyng ei gwmpas i ganolbwyntio ar dai fforddiadwy. Teimlai MH y gallai hyn gyfyngu ar yr ymwybyddiaeth sy'n bodoli o gyfraniad codi tai preifat.

Ychwanegodd KJ y gallai edrych ar ffyrdd o leihau'r anghydbwysedd sylweddol rhwng y rhywiau o fewn adeiladu a pheirianneg fod yn flaenoriaeth ychwanegol.

Amlygodd MK y gallai fod cyfle i wneud rhywfaint o waith gyda'r grŵp trawsbleidiol ar dai, yn enwedig o ystyried pa mor gyffredin yw tai fel pwnc yn nhrafodaethau'r grŵp hyd yma.

Dywedodd MK y byddai'n anfon rhestr o bynciau posibl i'r grŵp fyfyrio arnynt a rhoi barn arnynt.

Cytunodd JW y gallai cyfarfod ar y cyd â'r grŵp trawsbleidiol ar dai fod yn ddefnyddiol ac ychwanegodd y gallai ymgysylltu pellach â Climate Cymru yn dilyn sylwadau BS fod yn werthfawr hefyd. Cytunodd JW ymhellach y byddai sesiwn gyda Hefin David ar ei adroddiad yn amserol ar ôl y toriad.

Diolchodd JW i bawb am fod yn bresennol a daeth â’r cyfarfod i ben.